PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 29 Gorffennaf 21, 2022 50c.

SYMBOL GRYMUS Y GROES: ANERCHIAD LLYWYDD YR UNDEB

'Her yr Eglwys ôl-Covid' oedd testun anerchiad y Parchg Beti-Wyn James, Llywydd yr Undeb, yn y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin. Roedd yn gobeithio y byddai'r hyn roedd ganddi i'w ddweud yn help i'r eglwysi ganfod ffordd ymlaen ar ôl cyfnod gofidus, dryslyd a heriol, meddai.

Ar glawr copi o'r anerchiad mae llun o'r groes o flaen symbol y Covid. Dylai'r groes fod o flaen popeth a phawb meddai Beti-Wyn, gan mai'r groes yw un o symbolau mwyaf grymus y byd. Mae copi o'r anerchiad ar ffurf llyfryn yn portreadu chwe chroes gwahanol. Gyda phob un a'i neges unigryw.



Bydd adroddiad llawnach am yr hyn ddywedodd y Llywydd yn ymddangos yn *Y Tyst* eto. Gellir archebu copi o'r anerchiad trwy gysylltu â Thŷ John Penri, y pris yw £5 + cost postio.

O GANU BENDIGEDIG Gosodwyd naws hyfryd ar ddechrau Oedfa'r Llywydd gan y gynulleidfa luosog

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Caerfyrddin 2022

Dyma ran gyntaf adroddiad y Parchg Dyfrig Rees a draddodwyd ganddo yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni.

Annwyl lywydd a chyfeillion.

Cawsom ninnau, fel John Thomas, Lerpwl gynt ddigon o achos i fod yn 'sbringar' (*Yr Undeb*, R. Tudur Jones) ein cam wrth gyrraedd tre Caerfyrddin ar gyfer Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yntau ar sail y ffaith fod yr Undeb cyntaf erioed yn 1872 yn argoeli i fod yn un llwyddiannus a da, a ninnau ar bwys y ffaith ein bod ni'n cael dod ynghyd o gwbl, wedi dwy flynedd o gyfarfod â'n gilydd o bell, fel petai, a chael gwneud hynny eleni ar achlysur dathlu trydedd Jiwbilî'r Undeb. Mae mor braf cael dod i gwmni'n gilydd unwaith eto ac mae'n siŵr gennyf y try'r gymdeithas a'r gyfeillach yn gyfrwng bendith a daioni ynddynt eu hunain, i bob yr un ohonom. Mae'n fraint ac yn bleser i mi fel Ysgrifennydd Cyffredinol gael cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw. Mae'n dda gennyf gael cyfle i ddiolch i aelodau pwyllgor lleol y cyfarfodydd hyn, dan gadeiryddiaeth y Parchg Tom Defis, am eu gwaith dyfal a gofalus dros y misoedd diwetha gyda'r trefniadau, ac am sicrhau fod popeth sydd angen ei wneud i gynnal cyfarfodydd effeithiol a da wedi ei gyflawni. Rydym eisoes wedi profi o'r croeso a chawsom gipolwg hyfryd ar y cyfoeth o ddoniau sy'n perthyn i eglwysi'r cyfundeb yn y cyflwyniad.

150

Cafodd cwmni bychan ohonom y fraint o ddod ynghyd i gapel Ebeneser, Abertawe, (trwy gydweithrediad parod a charedig yr Eglwys Fedyddiedig sy'n addoli yno nawr) ar nos Fawrth, 12 Hydref, y llynedd, i'r man a'r lle, ac ar y dyddiad a

parhad ar dudalen 2

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Caerfyrddin 2022 – *parhad*

hyd yn oed ar yr amser y sefydlwyd yr Undeb 150 mlynedd ynghynt, yn 1871. Afraid nodi'r wefr a brofwyd yng nghwmni'r Athro Prys Morgan y noson honno, ag yntau'n ei ddarlith, 'Undod yn lle Annibendod: Dr Rees (Ebeneser) a sefydlu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg' yn olrhain y dyhead dwfn oedd ym mynwes rhai Annibynwyr blaenllaw'r cyfnod i weld sefydlu Undeb yr Annibynwyr. Gŵyr y cyfarwydd am ddawn feistrolgar y darlithydd wrth drin ei bwnc, a'i allu rhyfeddol i wneud hanes yn beth byw. Bu bron i'r gynulleidfa leol, os nad y gynulleidfa rithiol hefyd, y noson honno weld Thomas Rees, John Thomas a Henry Richard, gyda Dr Morgan ym mhulpud Ebeneser, Abertawe.

Ni wn i am neb sy'n ystyried penderfyniad y noson honno yn gamgymeriad. Yn wir, i'r gwrthwyneb yn hollol, diolch a wnawn ni o galon i Dduw am ein hynafiaid, am eu gweledigaeth fentrus, arloesol a'u hymroddiad llwyr i'w dwyn i weithrediad. Cofiwn eiriau Iesu i'w ddisgyblion, 'Anfonais chwi i fedi cynhaeaf nad ydych wedi llafurio amdano. Eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur.'

Cyn diwedd y prynhawn bydd Dr Geraint Tudur, un arall sy'n feistr yn ei faes ac yn ddarlithydd gafaelgar, yn estyn cyfle inni flasu 'Yr olaf o win yr haf', sef ffrwyth llafur Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1972-2022. Yn hyn o beth, y mae Geraint yn cyflawni cymwynas fawr iawn â ni, ac o gofio lletchwithdod trefniadau gwaith colegau a llyfrgelloedd dros gyfnod y pandemig, un sydd wedi gofyn am amynedd a dyfalbarhad diddiwedd o'i eiddo. Buan y sylweddolwn ni bod campwaith ger ein bron, campwaith ddaw rhyw ddydd, gobeithio, yn ddiweddariad teilwng i gyfrol R. Tudur Jones, tad Geraint, *Yr Undeb*. Alla i ddim meddwl am bartneriaeth ragorach yn y gwaith o osod canrif a hanner o fywyd a gwaith Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gof a chadw.

Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

LANSIO 'HEULWEN DAN GYMYLAU' – STRATEGAETH DEMENTIA

Achlysur hynod bwysig yn y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin oedd cyhoeddi *Heulwen dan Gymylau*, sef llawlyfr ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar. Ysgogwyd y prosiect gan Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr Undeb, a bu gweithgor, o dan faner Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, wrthi'n ddygn yn llunio'r llawlyfr, gyda chymorth ac awgrymiadau gwerthfawr gan nifer o asiantaethau a sefydliadau sydd yn gweithio yn y maes arbennig yma.

Maint y salwch

Yn ôl ffigyrau'r Gymdeithas Alzheimer, mae dros 850,000 o bobl yng ngwledydd Prydain yn byw gyda dementia, ac mae disgwyl i'r ffigwr yna gynyddu i filiwn erbyn 2025 (a dwy filiwn erbyn 2050). Yn wyneb y fath ystadegau, mae Undeb yr Annibynwyr am annog a chynorthwyo'r eglwysi ar draws Cymru benbaladr, i ymbaratoi rhag-blaen ar gyfer hyn, ac mae'r llawlyfr yn cynnig arweiniad ar sut i wneud hyn o dan bedwar pennawd:

- Adeiladau
- Gofal Bugeiliol
- Oedfaon a Gweithgareddau
- Y Gymuned

Mae llawlyfr yn eich tywys trwy ddull o hunanasesu y man cychwyn ar y daith. Cewch gymorth 'Patrymau ar gyfer oedfaon,' a chewch werthfawrogi 'Grym Cerddoriaeth' i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Ceir cyfeiriadau a chysylltiadau cymdeithasau sydd eisoes yn gweithredu yn y maes, a gwybodaeth ar sut i fod yn 'Ffrind Dementia' (a hefyd fel 'Hyrwyddwr Ffrindiau Dementia') yn ôl y galw.

Rhestrir adnoddau digidol a llyfrau print ar ddiwedd y llawlyfr, ac mae'r cyfan wedi ei osod o fewn cyd-destun 'Seiliau Diwinyddol Eglwys Ddementia-gyfeillgar' mewn cyflwyniad byr gan lywydd yr Undeb, y Parchedig Beti-Wyn James.

Adnodd hawdd i'w gael

Mae yr adnodd cyfan ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac mae cyfieithiad Saesneg yn cael ei baratoi yn ogystal. Ewch i:
Eglwysi Dementia-gyfeillgar (annibynwyr.cymru)

Bydd y fersiwn digidol yn hwyluso defnydd o'r cynnwys i unigolion neu ar gyfer oedfa, a chynhwysir nifer ychwanegol o esiamplau o oedfaon addas yma, gyda sleidiau PowerPoint i gyd-fynd â'r cyfan. Gwnewch yn siŵr bod copi o'r llawlyfr yn cyrraedd eich eglwys / capel yn fuan, ac yn fwy na hynny, ewch ati i'w ddarllen, ac i weithredu!

Yr Adran
Gydenwadol

GORFFENNAF 21 2022 RHIF 73

Sioe Fawr 2022

Gan na chynhaliwyd y sioe ers 2019, mae pobl cefn gwlad yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael ailymgynnull eleni. Mae'r gymuned amaethyddol yn un glòs iawn yma yng Nghymru ac mae gan y rhai sy'n byw mewn llefydd mwy torfol yn aml ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yng nghefn gwlad. Mae gennym lawer i fod yn ddiolchgar amdano, o gael byw mewn gwlad mor brydferth.

Er hyn oll, tydi hi ddim yn wynfyd o bell ffordd. Mae achosion iselder ysbryd wedi bod ar gynnydd yn ddiweddar yn sgil heriau cynyddol. Bu'r cyfnodau clo yn sgil Covid yn anodd i lawer ar draws ein gwlad: unigrwydd ac ansicrwydd yn dilyn newidiadau gwleidyddol a pholisïau amaeth.

Trist iawn oedd diwrnod yr ymosodiad ar Iwcráin a'r dioddefaint sy'n parhau. Mae sgileffeithiau'r rhyfel yn cael eu teimlo ar draws y byd, ond yn enwedig gan y tlotaf a'r llai breintiedig. Mae cyflenwadau bwyd y byd, oedd eisoes o dan straen, wedi'u taflu bellach i stad o argyfwng. Dywedodd y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddar fod 274 miliwn o bobl yn wynebu newyn oherwydd yr argyfwng.

Mae amaethu, gofalu am y tir ac anifeiliaid wedi bod yn weithgarwch dyn ers y dechreuad, gyda hanesion lu yn y Beibl am ffermwyr fel Abraham, Isaac a Jacob. Gadawodd Jacob ei gartref ar adeg o newyn a symud ei deulu i lawr i'r Aifft i sicrhau diogelwch ei blant. Mae hanes Joseff yn un diddorol iawn yn y modd y bu i Dduw roi doethineb iddo i lywodraethu'r wlad.

Rhaid i ninnau gydnabod gorchymyn y Beibl i ni warchod a llywodraethu'n ofalus yr hyn sydd wedi'i roi i ni yn y byd. Cydnabyddwn nad yw'r byd yn berffaith: mae effaith y cwymp – beth mae'r Beibl yn ei alw'n bechod – i'w weld o'n cwmpas ac yn ein calonnau ninnau.

Defnyddiodd Iesu Grist ddarluniau o fyd amaeth wrth iddo bregethu'r efengyl, y newyddion da am ras Duw a'i ddaioni tuag atom. Roedd aberth Iesu Grist ar y groes yn brawf o hynny, a'i atgyfodiad yn dyst i'r aberth fodloni sancteiddrwydd Duw.

Byddaf wrth fy modd yn adrodd geirau salm 23: 'Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf'.

Mae pob ffarmwr defaid yn gwybod pa mor anodd yw gofalu amdanynt, ac nid ydym ninnau fel pobl yn wahanol. Ond diolch na wna Bugail Mawr y defaid fyth droi ei gefn ar unrhyw un fydd yn ei geisio: 'Y Bugail da sy'n rhoi ei einioes dros y defaid'. (Ioan 10:11)

Aled Jones
(Aled yw Llywydd NFU Cymru eleni)

GOLEUNI'R BYWYD

Cynhelir darlith dan nawdd Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru

yn

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022

'Cerdd a Chredo:
ydi cerdd grefyddol yn bosibl heddiw?'

gan Dr Rowan Williams,
Cyn-archesgob Caergaint

Cymdeithasau 2
Prynhawn dydd Mercher, 3 Awst
am 1.30 o'r gloch

Croeso i bawb

Y sied gneifio o dan ei sang ar gyfer Cymanfa Ganu Moliant y Maes, gyda Chôr Aelwyd Dyffryn Clwyd yn cyflwyno eitemau ar y llwyfan

Mae'r Sioe yn cychwyn yn ffurfiol bob blwyddyn gydag oedfa yn Eglwys Llanelwedd. Eleni, gyda Sir Clwyd fel prif noddwyr y Sioe, yr Esgob Gregory Cameron oedd y pregethwr gwadd

Caredigrwydd dieithriaid yn dod â gobaith ym mynyddoedd Wcráin

*Mae **Karen McDonnell** yn weithiwr dyngarol gyda Chymorth Cristnogol yn Wcráin. Dyma'i hadroddiad am Wcrainiaid, yn cynnwys y gwan a'r oedrannus, sy'n ffoi rhag yr ymladd yn y dwyrain.*

Fe wnes i gyfarfod â Natasha mewn byngalo oedd yn cael ei rannu gan dri theulu yn ucheldir gorllewin Wcráin, mewn pentref diarffordd o'r enw Borynya. Rydym wedi cyrraedd gyda'n partner lleol i gofrestru pobl sydd wedi eu dadleoli fel y gallent dderbyn cymorth.

Dim ond 25 oed ydi Natasha, a phan ofynnwyd iddi beth oedd hi'n ei wneud cyn iddi ddod yma, goleuodd ei hwyneb: 'Rwy'n gerddor; rwy'n chwarae'r *bandura*.' Mae pawb yn dechrau curo'u dwylo. Yn llawn cyffro, maent yn gofyn iddi chwarae offeryn cenedlaethol Wcráin.

Am ennyd, yn y mynyddoedd, wedi ei hamgylchynu gan ddieithriaid, mae Natasha yn dechrau chwarae ei cherddoriaeth. Offerynnol yw rhai darnau, ond mae eraill yn troi'n gydganu. Mae Natasha yn gwrido â balchder wrth i'r dyrfa ei chanmol: 'Dwi ddim yn gallu chwarae i bobl yn aml iawn; roedd hyn mor neis.'

Mae ei theulu, yn cynnwys ei rhieni, un brawd a thair chwaer, yn dal i fod yn Kherson, sydd ym meddiant Rwsia. Yn ofalus, gofynnaf iddi a ydynt yn ddiogel. Mae'n gwenu: 'Ydyn, maen nhw'n ddiogel ond alla i ddim mynd atyn nhw ac allan nhw ddim dod oddi yno.'

Mae Kherson tua 1,300 cilometr o'r lle rydyn ni'n eistedd, ac oes i ffwrdd o'i hastudiaethau yn academi cerdd Dnipro. Awgrymodd ei thad y dylai fynd â'i *bandura* gyda hi pan oedd hi'n ffoi, fel y gallai fyscio petai ganddi ddim byd ar ôl.

Daeth yma oherwydd ei bod yn adnabod un person yn y lloches – dyn o'i heglwys yn Dnipro, a ddywedodd ei bod yn ddiogel yno a bod y trigolion lleol yn bobl dda. Meddyliais yn uchel tybed a oedd hi'n colli bywyd y ddinas, a gwenodd eto, a dweud: 'Rwy'n caru natur.'

Karen McDonnell

Alla i ddim dychmygu bod yn 25 oed, wedi fy rhwygo oddi wrth fy nheulu, â dim ffordd o nghynnal fy hun mewn gwlad sydd ynghanol rhyfel. Ni yw'r asiantaeth datblygu ryngwladol gyntaf i gynnig cefnogaeth ar ffurf arian parod iddi. Pan ofynnais iddi sut y byddai'n ei wario mae'n gwrido: 'Dim ond pethau merched.'

Wrth symud i bentref arall, dyma ddysgu fod y niferoedd [y bobl wedi eu dadleoli] yn mynd i fyny ac i lawr. Doedd y maer ddim yn hollol siŵr faint o bobl oedd yn ei gymuned.

Fel hyn y mae hi ym mhobman. Rydym yn clywed am bobl yn symud yn ôl tuag at y rheng flaen, ac yna'n dychwelyd – wedi eu rhwygo rhwng y teimlad o fod yn ddiogel a'r teimlad nad ydynt yn perthyn ac am gael bod adref.

Daeth y maer â ni i'n tŷ cyntaf. Fe ddysgom ni nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu cofrestru fel pobl wedi eu dadleoli'n fewnol. Golyga hyn nad oes ganddynt fynediad at unrhyw fath o gymorth. Felly, fe wnaethom ni fynd ati i'w cofrestru.

Mae rhai cyrff anllywodraethol yn dweud y dylid cofrestru pobl, ond dyw llawer ddim yn mynd i'r drafferth oherwydd bod ganddynt ofn, neu ddim yn gwybod y gallent wneud hynny, neu nad ydynt yn gallu oherwydd anableddau.

Does dim un asiantaeth cymorth fawr yma. Mae'n bell iawn o'r canolfannau poblog, ond i'r fan hon y daw rhai o'r bobl fwyaf bregus i chwilio am loches. Does dim mynediad i'r rhyngrwyd, bron, na ffôn yma, na gwybodaeth ar gael.

Ceisiodd un o aelodau staff ein partner siarad ag un wraig drallodus oedd yn ofni rhoi gwybodaeth. Pan oedd yn dawelach, aethant i'w thŷ fel y byddai'n teimlo'n fwy diogel. Yn ei chartref roedd dau berthynas oedrannus ac anabl.

Roedd y tri ohonynt wedi byw o dan y ddaear am 40 diwrnod yn Kharkiv. Cawsent eu bomio bob dydd. Mae'r ddwy wraig yn siarad am brinder meddyginiaeth ar gyfer y dyn, sydd â nifer o afiechydon meddyliol a chorfforol.

Mae ei feddyginiaeth yn costio 50 ewro bob mis. Maent wedi ffoi yma oherwydd iddynt ddeall bod ystafell ar gael iddynt. Nawr does ganddynt ddim ar ôl, ac maent yn ofni cofrestru gan nad ydynt yn gwybod beth allai hynny ei olygu.

Oherwydd hyn, rydym yn rhoi grantiau diogelwch i'r teuluoedd hyn: arian parod y gellid ei roi iddynt yn y fan a'r lle er mwyn prynu meddyginiaeth, neu gadair olwyn o bosibl, heb orfod aros. Rhoddir digon i'r teulu ar gyfer y cyffuriau am bedwar mis. Y diwrnod hwnnw, fe wnaethom newid eu bywyd.

Ar ddiwedd ymweliad hir, aethom ati i ddibriffio'r staff lleol oedd wedi bod yn cadw cyfrif o'r bobl oedd angen help. Roedd yn rhaid iddynt ddygymod â gwrando ar storïau hynod o anodd: Rwsiaid yn dwyn popeth, a derbyn lluniau o'u cartrefi wedi eu dinistrio.

Dim ond un diwrnod yn y maes yw hwn. Mae rhai o'n staff wedi mynd drwy'r trawma hwn eu hunain a nawr yn gwrando ar storïau trallodus eraill. Rydym yn cymryd eu lles o ddifrif drwy gynnig hyfforddiant ar sut i reoli straen a phryder.

Serch hynny, does neb yn y tîm am roi'r gorau iddi. Bydd mwy o ddyddiau fel hyn yn y misoedd i ddod. Allwn ni ddim newid popeth dros nos, ond rydym yn rhoi gobaith iddynt am yfory gwell.

O'r Beibl: 9

Y Gwynfydau (2)

"Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd,
oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd."
(Mathew 5:3)

Ceir wyth gwynfyd yn Efengyl Mathew, 5:3–10. Mae pob un ohonynt yn dechrau â'r un ymadrodd: 'gwyn eu byd'. Ond beth yw ystyr y geiriau hyn?

Yn ôl ein geiriaduron Cymraeg, 'gwynfyd' yw 'llawenydd', 'hapusrwydd' neu 'ddedwyddwch'. Nid yw 'gwyn eu byd' yn ymadrodd anghyfarwydd gan ein bod yn ei ddefnyddio ambell dro yn ein Cymraeg cyfoes. Pan ddywedwn fod rhywun yn 'wyn eu byd', rydym yn golygu eu bod nhw'n arbennig o lawen a hapus.

Y gair Groeg – iaith wreiddiol Efengyl Mathew – am 'gwyn eu byd' yw '*makarios*', sy'n llythrennol yn golygu 'hapus'. Er mai dyma ystyr lythrennol y gair, yn gyffredinol, mae cyfieithwyr y Beibl wedi gochel rhag cyfieithu'r gair hwn fel 'hapus'. Pam? Wel, mae 'hapus' yn air rhy arwynebol. Heddiw, mae 'hapusrwydd' yn aml yn dibynnu ar ein teimladau ac mae'n mynd ac yn dod, yn dibynnu ar ein hamgylchiadau. Nid dyma yw ystyr y gair '*makarios*'. A dyma pam mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yn dewis ei gyfieithu fel 'bendith'. Er enghraifft, mae beibl.net yn cyfieithu adnod 3 fel hyn: 'Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonnol *wedi'u bendithio'n fawr*' ac mae'r rhan fwyaf o Feiblau Saesneg yn cyfieithu 'gwyn eu byd' fel '*blessed be*'.

Dyma'r esboniad gorau o ystyr 'gwyn eu byd': y rhai sydd wedi'u bendithio gan Dduw, y rhai sydd o dan fendith Duw. Nid yw 'gwyn eu byd' yn cyfeirio'n bennaf at ein *hemosiynau*, ond at ein *perthynas* â Duw. Yn wir, y cwestiwn pwysig i'w ofyn yw: beth mae'n ei olygu i fod yn 'wyn ein byd' – bod dan fendith Duw – yn ôl y Beibl? Nid yw'n golygu cael llawer o eiddo, cael tŷ mawr, cael teulu hyfryd, cael swydd arbennig, cael iechyd da. Na, yn ôl y Beibl, bod yn 'wyn ein byd', yng ngwir ystyr yr ymadrodd, yw mwynhau perthynas iawn gyda Duw trwy Iesu. Dyma beth yw ystyr bod yn 'wyn ein byd'.



'Tlodion yn yr Ysbryd'

Ond, *pwy* yw'r bobl sy'n 'wyn eu byd'? Pwy yw'r bobl hynny sydd wedi'u bendithio gan Dduw? Wel, mae'r Gwynfydau yn rhoi rhestr o rinweddau'r bobl hynny sy'n perthyn i Deyrnas Dduw – y rhai sy'n 'wyn eu byd'. Yn adnod 3, cawn ein cyflwyno i'r rhinwedd gyntaf: 'gwyn eu byd y rhai sy'n *dlodion yn yr ysbryd*'.

Mae hyn yn annisgwyl! Byddem yn disgwyl i'r adnod ddarllen 'gwyn eu byd y rhai sy'n *gyfoethogion yn yr ysbryd*'. Wedi'r cyfan, ym mhob oes, onid y cyfoethog sy'n wyn eu byd, sydd wedi'u bendithio, sy'n hapus? Mae Iesu'n troi disgwyliadau'r byd wyneb i waered trwy ddweud: 'gwyn eu byd y rhai sy'n *dlodion yn yr ysbryd*'.

Sylwch mai 'tlodion *yn yr ysbryd*' mae Iesu'n ei ddweud. Nid rhywbeth materol yw'r tlodi hwn, ond rhywbeth ysbrydol. Beth felly yw ystyr 'tlodion yn yr ysbryd'? Wel, yn syml, y 'tlawd yn yr ysbryd' yw'r rhai sy'n cydnabod eu tlodi ysbrydol, y rhai sydd wedi edrych y tu mewn i'w calonnau a sylwi eu bod nhw'n dlawd yn ysbrydol. Mae'r ffordd y mae beibl.net yn cyfieithu'r adnod yn ein helpu ni i ddeall hyn: 'Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonnol wedi'u bendithio'n fawr.' Bod yn dlawd yn yr ysbryd yw sylwi mai pechaduriaid ydym ni sydd angen help Duw. Heddiw, clywn yn aml am gwmnïau sy'n gorfod cyhoeddi eu bod nhw'n fethdalwyr – *bankrupt*. Bod yn dlawd yn ysbrydol yw cydnabod ein bod yn fethdalwyr ysbrydol.

Yn ôl Iesu, dyma'r math o bobl fydd yn cael 'etifeddu teyrnas Dduw'. Dyma'r math o bobl sy'n perthyn i Deyrnas Dduw. Mae pob Cristion wedi cydnabod eu bod nhw'n 'dlodion yn yr ysbryd'.

Cymhwyso

Beth am gymhwyso hyn i'n bywydau bob dydd? Yn ddi-os, mae cydnabod ein bod ni'n 'dlodion yn yr ysbryd' yn beth radical iawn i'w wneud heddiw. Rydym yn byw mewn oes sy'n dweud wrthym mai'r ffordd i fod yn wirioneddol hapus yw trwy 'gredu ynom ni'n hunan' (*believe in yourself*). Ond y broblem gyda 'credu ynom ni'n hunan' ydy fod gwneud hyn, yn eironig iawn, yn ein llenwi ag ansicrwydd a diffyg hyder. Rydym yn siomi ein hunain ac nid ydym yn gallu cyrraedd ein disgwyliadau ni ein hunan. Er bod 'credu ynom ni'n hunain' yn addo rhyddid, yr hyn mae'n ei wneud mewn gwirionedd yw ein caethiwo.

Yn y Gwynfydau, fodd bynnag, mae Iesu'n ein hannog ni i wneud y gwrthwyneb. Mae'n ein hannog nid i gredu ynom ni'n hunan ond i sylwi ein bod ni'n wag, yn dlawd ac yn anghenus. Y newyddion da ydy fod Iesu'n gwybod yn iawn sut bobl ydym ni; mae'n gwybod yn iawn pa mor wael, gwag a phechadurus ydym. Ond eto, mae'n dewis ein caru â chariad mor fawr nes iddo farw ar y groes er mwyn i dlodion ysbrydol gael profi holl gyfoeth trugaredd Duw. Ydym ni wedi dod at Iesu eto gan gydnabod ein tlodi ysbrydol a gofyn iddo am ei help?

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae 'gwyn eu byd' yn ei olygu?
- Sut bobl yw'r rhai hynny sy'n 'dlodion yn yr ysbryd'?
- Ym mha ffordd mae bod yn 'dlawd yn ysbrydol' yn wahanol i syniadau'r byd?

Gwilym Tudur

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 24 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp
Wyn James yn bwrw golwg ar Michael D. Jones ar ddaucanmlwyddiant ei eni

Oedfa Radio Cymru
Sul, 24 Gorffennaf, am 12:00yp
Gwasanaeth dan ofal Nerys Griffiths, Caernarfon

Credu

Mae Cristnogion yn debyg i'w gilydd, ond mi fedran nhw fod yn wahanol iawn i'w gilydd hefyd. Ni ddylai hynny ein synnu gan fod Cristnogion pob oes yn credu yn yr un Arglwydd ond yn gymeriadau unigol ac unigryw. Yn aml iawn, ffydd yn Iesu Grist ydi'r unig beth sy'n gyffredin i Gristnogion sy'n wahanol eu diddordebau a'u diwylliant a'u gwleidyddiaeth a phopeth arall.

Nadine Dorries

Mae ei hedmygedd o'i hannwyl brif weinidog yn ddigon i awgrymu i mi nad oes lawer yn gyffredin rhyngof a'r ysgrifennydd gwladol dros faterion digidol, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, Nadine Dorries. Ond roedd rhaid gwenu o ddarllen ei hymateb i adolygydd a ddywedodd mai ei nofel gyntaf hi oedd y waethaf a ddarllenodd ers talwm, awgrymodd Ms Dorries y dylai'r dyn ddarllen ei hail nofel gan ei bod 'yn well o lawer.' Fodd bynnag, rhywbeth arall a ddarllenais amdani a dynnodd fy sylw'r dydd o'r blaen oedd y geiriau, o'u cyfieithu: 'Mae Nadine Dorries yn Gristion.' Ardderchog o beth bob amser yw clywed am bobl sy'n arddel y ffydd

Gristnogol, a braf fyddai clywed rhagor am ffydd Ms Dorries, fel pob Cristion arall.

Cyfweliad

Daeth y cyfle i wneud hynny mewn cyfweliad rhyngddi a Rachel Johnson, chwaer y prif weinidog, a'i holodd am ei ffydd. Ond er mawr siom, tebyg i lawer o bobl sy'n ansicr ac aneglur eu 'ffydd' yw Ms Dorries wedi'r cyfan. 'Rydw i yn grediniwr,' meddai. 'Dwi'n credu fod yna dduw ... Dwi yn credu ... Dwi ddim yn rhywun sy'n *Bible-basher* nac yn rhedeg i'r eglwys bob pum munud.' A chwarae teg iddi, roedd rhaid edmygu ei gonestrwydd pan ofynnwyd a oedd ei 'ffydd' yn rhoi iddi nerth yn wyneb bryntni byd gwleidyddiaeth: 'Dwi ddim cymaint o grediniwr â hynny ... Dwi ddim yn meddwl fod fy ffydd mor gryf ... dydi o ddim yn sail i bob peth a wnaf.'

Mae yn dduw

Y gorau y medrai ei ddweud oedd bod a wnelo'i ffydd â'i syniad o'r da a'r drwg a'i bod yn credu fod yna gynllun i bawb a phopeth. A bod yn deg â hi, wn i ddim a fyddai Nadine Dorries yn ei galw'i hun yn Gristion erbyn hyn, beth bynnag ei chefndir. Mae'r hyn a ddywedodd yn y cyfweliad yn sicr yn awgrymu nad yw disgrifiad yr erthygl ohoni'n gywir. Nid 'credu fod yna dduw' yw ystyr 'credu' i'r Cristion ond ymddiried â'r holl galon yn y Gwaredwr Iesu Grist, Mab Duw. Nid yw'r Cristion yn dirmygu'r Beibl a phawb sy'n ei gredu nac yn ddilornus o'r arfer o fynychu capel neu eglwys. Ac er cydnabod gwendid a methiant i ymddiried yn Nuw fel y dylai, mae gan y Cristion ryw syniad a phrofiad o nerth a chymorth Duw yn ei fywyd bob dydd. Mae llawer mwy i'r Ffydd Gristnogol na hyn.

Gweddïwn dros bawb tebyg i Nadine Dorries – pwy bynnag ydynt – sydd mor annelwig ac ansicr eu 'cred', ar iddynt ddod i weld mai ymddiriedaeth yn Iesu Grist yw swm a sylwedd 'credu' i'r Cristion.

John Pritchard

(allan o *Gronyn*, wythnosolyn Gofalaeth Fro'r Llechen Las, 26 Mehefin, 2022)

Colofn Geir-iau

Trystio beth sy'n wir

Ar 18 Ebrill 1930 mi ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn. Mi gyhoeddodd newyddion y BBC fod 'dim newyddion' y diwrnod hwnnw cyn chwarae cerddoriaeth glasurol am chwarter awr y newyddion! Mor wahanol ac estron mae hynny'n ein taro ni! Mae newyddion fel petai'n tarddu o bobman dan haul – er nid dibynadwy ydy pob ffynhonnell, na theilwng o'i alw yn 'newyddion' ydy pob darn o wybodaeth! Un o'r nodweddion amlycaf am ein cyfnod ni o hanes ydy faint o wybodaeth sy'n cael ei daflegru tuag atom ni pob dydd wedi ei guddio fel ffeithiau hollbwysig.

Trydarfyd

Dwi'n ddrwg am fynychu gwefan Twitter. Mae beth sy'n dechrau fel edrych ar fy ffôn i weld os wnaiff rhywbeth gymryd fy niddordeb yn sydyn yn troi mewn i sgrolio yn ddiddiwedd yn chwilio am y peth diddorol nesaf! Y peth peryg am wefannau tebyg i Twitter – sy'n ein gorlwytho gyda gwybodaeth ddiflas – ydy eu bod yn ein dadsensiteiddio i wybodaeth sy'n bwysig ac yn berthnasol i ni. Yn y pen draw, yn ôl sawl darn o ymchwil, maent yn cymryd llawenydd a diddordeb allan o dasgau a digwyddiadau yn y 'byd go iawn'.

Gwir 'ta gau?

Fel Cristnogion mae hyn yn amlwg yn codi heriau ychwanegol. Sut mae dirnad beth sy'n wirionedd ac yn ddaionus? Sut mae dadansoddi pa ddigwyddiadau neu wybodaeth sydd angen ein sylw? Sut mae posib dewis pa achosion y dylem weithredu o'u plaid neu yn erbyn? Sut mae gweithredu a brwydro dros gyfiawnder a heddwch y ddinas (Jeremeia 19:7)? Yn anffodus, does dim atebion gennyf. Un peth sydd wedi rhoi hwb i mi yn ddiweddar ydy gwrando ar gân Hillsong, 'This I believe (The Creed)' sydd yn hunanesboniadwy yn seiliedig ar Gredo'r Apostolion. Cân syml ydy hi heb gymhlethdod plethu geiriau yn ddyfeisgar na gor-greadigol. Yn syml, rhoi cerddoriaeth i Gredo'r Apostolion mae hi. Darllenwch y Gredo isod a sylwch ar ba mor sylfaenol ydy'r geiriau ond eto mor gymhleth ydy'r cysyniadau:

> Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog,
> Creawdwr nef a daear:
> Ac yn Iesu Grist, ei un Mab ef, ein Harglwydd ni; yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân, a aned o Fair Forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilat, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd; a ddisgynnodd i uffern; y trydydd dydd y cyfododd o feirw; a esgynnodd i'r nefoedd.
> Ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollgyfoethog; oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.
> Credaf yn yr Ysbryd Glân; yr Eglwys Lân Gatholig; Cymun y Saint; maddeuant pechodau; atgyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragwyddol. Amen.

Dyma ydy ein gwirionedd sylfaenol mewn byd mor ddryslyd. Dyma ydy'r gwirionedd oesol mewn byd sydd yn llawn o bethau diflanedig. Dyma pwy ydy'r Duw rydym ni'n addoli a dyma ydy'r Crist sy'n haeddiannol o'n moliant gyda'n holl galon, enaid a'n holl feddwl.

Gwion Dafydd

Stori Pererin

Carol Hughes

Mae pererindod yn dod ag adfywiad! Mae'n bosib mai'r bererindod Gristnogol gyfoes enwocaf yw'r Camino De Santiago, sy'n ymlwybro ar draws 555 milltir o dir Sbaen. Gyda'r ffigurau swyddogol ar gyfer 2018 (cyn-Covid) yn 327,000 o bererinion, disgwylir i'r rhif hwnnw godi eto. Yn wir gallwn gasglu bod y diddordeb newydd yn Llwybr Pererin Gogledd Cymru yn rhan o'r ffenomen fyd-eang hon. Yn ymestyn 144 milltir o Dreffynnon yn y dwyrain i Enlli, ynys yr ugain mil o saint, yn y gorllewin, mae'r bererindod 'swyddogol' o deithiau cerdded dyddiol yn cychwyn ar 14 Mai yn Nhreffynnon ac yn gorffen yn Enlli ar 27 Mai. Ond wrth gwrs mae'r llwybr yn agored i unrhyw un ei gerdded ar unrhyw adeg.

Cymorth

Er mwyn cefnogi'r mudiad cynyddol hwn, mae hefyd nifer o gyhoeddiadau sy'n cynnig cymorth ymarferol, yn gosod y llwybr gyda mapiau, yn gwneud awgrymiadau defnyddiol a rhoi peth deunydd hanesyddol. Ac, wrth gwrs, mae faint a fynnir o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys YouTube a Facebook. Mae llyfrau hefyd sy'n cynnig darlun mwy myfyriol ac ysbrydol, ac sy'n gwneud archwiliad mwy diwinyddol i ffenomen pererindod.

Mae llyfr gan Rodney Aist (2016)[1] wedi tynnu fy sylw yn arbennig ac rwy'n defnyddio ei archwiliad a'i ddehongliad o 'bererindod' mewn ymgais i fframio fy mhrofiad fy hun wrth gerdded y llwybr. Yn fyr iawn, mae Aist yn ystyried y tri safbwynt canlynol fel conglfeini pererindod gyfoes:

1. Profiad ymgorfforedig;
2. Myfyrdod ar fendith Duw a'r greadigaeth;
3. Chwalu'r rhaniad caeth rhwng y seciwlar a'r cysegredig. Yn ôl Aist, mae'r rhain yn cael eu hamlygu'n fras trwy'r gymuned o berthyn, myfyrdod a gweddi, a'r hyn y mae'n ei ef yn ei alw'n 'deithio ysbrydol'.

Draw i Enlli

Ar ôl gwrando ar brofiadau eraill a darllen a phori yn ehangach penderfynais wneud fy nhaith fy hun o Fangor i Enlli, hanner y daith gyda ffrind a hanner gyda'r criw 'swyddogol'.

Ac yn gyflym iawn aeth y llinell rhwng y seciwlar a'r ysbrydol yn denau iawn wrth i mi wneud fy mharatoadau – mapiau, tocyn bws, amserlen bws, ffôn symudol, sgidiau da, bwyd, potel ddŵr, plastr pothell, dillad glaw, dillad haul, het, sbectol haul! Ac o'r diwedd, roedd popeth yn ffitio yn fy sach deithio.

Y camau ar y daith

Dydd Mercher 18 Mai, fy nghymal cyntaf, o'r Gadeirlan ym Mangor i Eglwys Sant Padarn, Llanberis (11 milltir, a dringo i ddrychiad o 1,250 troedfedd a gymerodd chwe awr a hanner).

Dydd Iau 19 Mai. Yr ail ddiwrnod o Lanberis i Benygroes (11.3 milltir, dringo i ddyrchiad o 1,300 troedfedd a gymerodd chwe awr a chwarter).

Myfyrdodau ar y ddau ddiwrnod cyntaf:

- Os yw Cristnogaeth yn ymwneud â'r hunanymgorfforedig yn y byd, fel yr ymgorfforwyd Crist yn y byd, yna mae pererindod fel 'taith ysbrydol' yn enghraifft o weithred o onestrwydd ymgorfforedig.
- Wrth gerdded trwy fawredd ofnadwy y tirwedd ôl-ddiwydiannol, mae'r cwestiwn yn hollol eglur: pa fodd y mae i ni ofalu yn well, ac ar unwaith, am greadigaeth Duw?
- Sylwaf ar baradocs, po fwyaf y cerddais, y mwyaf y deuthum yn llonydd i sylwi ar fy nhraed yn cyffwrdd â'r tarmac, y gwair, y llechen, a chlywed y gwynt, a'r ehedydd, clochdar y cerrig a'r gwcw. Nid fel arsylwr allanol mwyach, ond rhan ohono.
- Ac o'r man cyswllt hwnnw, clywaf o'r tu mewn lais yn diolch ac yn offrymu gweddi am arweiniad i gymryd y llwybr iawn.

Ac felly y bu yr holl ffordd; deuthum yn ymwybodol iawn o'r angen i ddod o hyd ac aros ar y llwybr cywir.

Pe bawn i'n dewis tri pheth a oedd o gymorth ar hyd y ffordd: ffydd, gobaith a chyfeillgarwch fyddai ar y brig. A dyna pam maen nhw'n dweud y gall ffordd y pererin adlewyrchu 'taith ysbrydol' ein bywydau.

Ac ymlaen yr wythnos nesaf wedyn, gyda chriw o bererinion o Benygroes i lawr i Enlli.

(allan o *Llais y Tabernacl*, Porthaethwy, Sulgwyn 2022)

---

[1] Rodney Aist, *Pilgrim Spirituality: Defining Pilgrimage Again for the First Time*. Cascade Books, 2006.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

DATGORFFORI SARON, BRYNCRUG

Capel bach ar fin y ffordd fawr – dyna un disgrifiad o gapel Saron ym mhentref Bryncrug ger Tywyn ym Meirionnydd. Ond er mai adeilad bychan iawn ydi o, mae'n gymen, yn gyfforddus, a'r awyrgylch wedi bod yn hynod gyfeillgar a chroesawgar yno ar hyd y blynyddoedd, a phwy nad anghofia'r croeso cynnes hwnnw ynghyd a'r gwerthfawrogiad o bregethiad y Gair?

Gofid o'r mwyaf oedd penderfyniad yr aelodau i ddod a'r achos i ben, ond roedd y criw wedi mynd yn llai ac yn llai yng nghwrs y blynyddoedd, a chyn i bethau fynd yn rhy bell, dyma wneud penderfyniad gweddigar i ddod a'r achos i ben ac ymuno mewn eglwysi eraill. A rhaid parchu'r penderfyniad hwnnw, a'r cyfan wedi'i wneud yn drefnus. Cafodd yr eglwys weinidogaeth loyw gyson hyd y blynyddoedd olaf un yn y Parchedig Ddr Terry Edwards, a rhaid diolch iddo am ei ffyddlondeb i'w bobl ac am eu cynnal drwy wahanol brofiadau bywyd am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, a derbyniwyd ymddiheuriad ganddo am fethu bod yn bresennol yn yr oedfa.

Cyn hynny bu'r Parchedigion John Owain Jones, John Elwyn Jones, Idwal Jones a David Williams yn weinidogion

yno, i enwi dim ond rhai. Diolch hefyd i'r swyddogion am eu hymroddiad a hefyd i'r gynulleidfa am ei ffyddlondeb, a hefyd i aelodau o eglwysi eraill am eu ffyddlondeb.

Cynhaliwyd yr oedfa ddatgorffori nos Lun, 6 Mehefin, 2022 a gwahoddwyd y Parchedig Iwan Llewelyn Jones – un a fu'n ymwelydd cyson a Saron ar hyd y blynyddoedd, a llywydd presennol Cyfundeb Meirion i arwain a phregethu. Tudur Jones, organydd medrus Bethel, Tywyn wasanaethodd wrth yr organ, a daeth ffyddloniaid Saron ac eraill ynghyd, i hiraethu, i gofio, ond yn fwy na dim i ddiolch i Dduw yng Nghrist am yr hyn a gafwyd ar hyd y blynyddoedd, a thrawyd neges buddugoliaeth oesol Iesu Grist y Groes a'r Atgyfodiad yn yr oedfa.

Iwan Llewelyn Jones

Y Ffrwd Fach

Beth yw eich teimladau chi pan fydd y newyddion yn cynnwys lluniau o'r bobl sy'n ceisio croesi'r Sianel i gyrraedd y lan ym Mhrydain? Mae cerdd enwog gan Brian Bilston, 'Refugees', wedi'i llunio i greu argraff benodol wrth ei darllen yn y ffordd draddodiadol (hynny yw, o'r top i'r gwaelod), ond argraff hollol wahanol with ei darllen am yn ôl (hynny yw, o'r gwaelod i'r top).

Mae sefyllfa ffoaduriaid wedi bod yn cael lle amlwg iawn yn y newyddion yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, yn enwedig with i lywodraeth San Steffan ddatblygu eu cynllun erchyll i anfon ffoaduriaid a cheiswyr lloches i Rwanda, ac mae'n fwyfwy pwysig ein bod ni'n codi llais dros y trueiniaid hyn sydd wedi mentro popeth i geisio sicrhau eu bod nhw a'u teuluoedd yn ddiogel.

Mae llawer o'r arthio ar y cyfryngau yn adleisio agwedd feirniadol darlleniad cyntaf y gerdd, tra bod mudiadau fel Refugee Action a Care4Calais yn ceisio atgoffa pawb mai pobl fel chi a fi sydd yma, yn aml yn ymdrechu i'r eithaf i gyrraedd gweddill eu teulu, neu'n ffoi rhag erchyllterau na allwn ni eu dychmygu.

Mae'r gerdd 'Home', gan y bardd a'r awdur Warsan Shire, a ddaeth i Brydain yn flwydd oed, ond a aned yn Kenya i rieni o Somalia, yn crisialu sefyllfa'r ffoaduriaid mewn ffordd gofiadwy iawn, ac rwyf wedi mentro cyfieithu peth ohoni.

Cartref
does neb yn gadael cartref oni bai
bod cartref yn geg siarc
dydych chi ddim yn rhedeg am y ffin
ond pan welwch chi'r ddinas gyfan
yn rhedeg hefyd

Ymgyrchu

Nawr bod Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi atal yr awyren gyntaf rhag hedfan i Rwanda, mae Llywodraeth San Steffan yn fwy penderfynol nag erioed o gyflwyno Bil Hawliau Dynol, er mwyn gallu dewis a dethol pa hawliau dynol sy'n cael eu parchu ym Mhrydain. Byddai hynny'n gam gwag i bawb ohonom, ond yn arbennig i'r mwyaf difreintiedig a diamddiffyn. Cofiwn yr anogaeth yn y Beibl i groesawu ymwelwyr a darparu ar eu cyfer, a pheidiwn â cholli cyfleoedd i ymgyrchu, nid yn unig yn erbyn y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, ond yn erbyn pob ymgais i leihau'r empathi a'r tosturi mae gwledydd Prydain yn ei ddangos at yr anghenus. Codwn ein lleisiau, a safwn yn gadarn yn ein ffydd i groesawu dieithriaid, fel ein bod yn clywed llais Iesu'n dweud: 'Chi roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb.'

Fiona Gannon

(allan o Bwrlwm, *Capel y Nant, Clydach, Rhif 147, Gorffennaf/ Awst 2022)*

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.